

Addysg Ddewisol yn y Cartref - Taflen Wybodaeth

Bwriad y wybodaeth ganlynol yw eich helpu i ddeall cyfrifoldebau Sir Ddinbych a'r ffyrdd y gallwn weithio gyda chi er mwyn helpu i sicrhau bod eich plentyn yn derbyn addysg addas.

Mae'n gyfreithiol ac yn dderbyniol i ddewis addysgu eich plentyn/plant yn y cartref. Lle mae rhieni wedi dewis addysgu yn y cartref, rydym eisiau sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth dda fel eu bod yn gallu cynnig y profiad mwyaf cadarnhaol posibl. Rydym yn credu mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw lle mae rhieni a'r awdurdod yn cydnabod hawliau a chyfrifoldebau ei gilydd a gweithio gyda'i gilydd.

Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg tra'u bod o oedran ysgol gorfodol. Oedran ysgol gorfodol yw o ddechrau'r tymor ysgol nesaf ar ôl eu pen-blwydd yn bump oed hyd nes y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y maent yn dod yn 16 oed. Os ydych chi yn neu'n bwriadu addysgu yn y cartref, bydd angen i chi barhau i ddarparu addysg addas hyd at ddiwedd oedran ysgol gorfodol.

Addysg yn y Cartref a'r Gyfraith Mae addysg yn hawl sylfaenol i bob plentyn ac rydym yn cydnabod bod gan rieni'r hawl i ddewis addysgu eu plentyn/plant yn y cartref yn hytrach nac yn yr ysgol.

Mae Adran 7 Deddf Addysg 1996 yn nodi: "Bydd rhiant pob plentyn oedran ysgol gorfodol yn achosi iddo/iddi dderbyn addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i'w oedran, dawn a gallu, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo / ganddi." Gellir gwneud hyn "trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu fel arall", ac mae "fel arall" yn cynnwys addysg yn y cartref.

Nid oes diffiniad o'r term 'effeithlon' yn y Ddeddf ac felly dyletswydd y rhiant/rhieni yw cyflawni eu dyletswydd yn unol ag unrhyw ddehongliad rhesymol o'r term. Yn sicr **nid** oes rhaid darparu'r un math o 'wersi' ag a ddarperir yn yr ysgol. Os oes gan yr Awdurdod Lleol bryderon am eich darpariaeth addysg yn y cartref, cyfrifoldeb y rhiant/rhieni fydd dangos bod y rhaglen waith yn helpu'r plentyn i ddysgu a bod y plentyn **yn** datblygu yn ôl oedran, gallu a dawn. Mae **Adran 436A** Deddf Addysg 1996, yn gosod dyletswydd ar ALI i:

- a. Nodi pob dysgwyr o oedran ysgol gorfodol nad ydynt wedi eu cofrestru mewn ysgol ac nad ydynt yn cael addysg heblaw yn yr ysgol;
- b. Canfod a yw dysgwyr o'r fath yn derbyn addysg addas.

Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig Os yw rhiant yn dymuno tynnu eu plentyn/plant sy'n ddisgybl cofrestredig mewn Ysgol Arbennig allan o'r sefydliad hwnnw, mae'r sefyllfa yn eithaf gwahanol. Mae rheoliad 9(2) Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 yn datgan: *Ni chaiff rhiant i blentyn o oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi ei gofrestru fel disgybl mewn ysgol arbennig yn unol â threfniadau a wneir gan Awdurdod Addysg Lleol dynnu'r plentyn o'r ysgol honno heb ganiatâd yr Awdurdod Addysg Lleol; ond gall unrhyw riant a dramgwyddwyd gan benderfyniad yr Awdurdod i wrthod rhoi caniatâd gyfeirio'r cwestiwn at yr Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn rhoi'r cyfarwyddyd ar hynny fel y mae'n ystyried yn briodol.*

Mewn perthynas â phlentyn/plant y tybir sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig, bydd yr awdurdod yn ystyried pob ymgeisydd yn unigol. Gan fod achosion o'r fath yn gymhleth iawn ar y cyfan, mae'n amhosibl delio â'r ystod eang o amgylchiadau yn y ddogfen hon.

Os nad yw'r plentyn/plant erioed wedi mynychu ysgol, er nad oes gofyniad statudol i rieni sy'n addysgu yn y cartref gofrestru gydag ALI, maent yn cael eu hannog yn gryf i wneud hynny gan y bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau.

Os nad oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw bryderon? Bydd yr ALI yn parhau i geisio cysylltu yn flynyddol i gynnig gwybodaeth a chefnogaeth, yn ogystal ag ystyried tystiolaeth bod addysg addas yn cael ei ddarparu. Fel arfer bydd cyswllt yn cael ei wneud yn ysgrifenedig a dylid ceisio cael cyfarfod neu ofyn am adroddiad diweddar.

Beth os na fydd y trefniadau'n foddhaol? Mae dyletswydd ar yr ALI, os yw'n ymddangos iddynt nad yw unrhyw blentyn/plant oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg addas naill ai trwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu fel arall, i gyflwyno hysbysiad ar riant/rhieni yn ei gwneud yn ofynnol i'r riant/rhieni fodloni'r ALI, o fewn cyfnod penodedig, bod y plentyn/plant yn cael addysg o'r fath. Ni ddylai'r cyfnod penodedig fod yn llai nac 15 diwrnod (adran 437 Deddf Addysg 1996). Os na fydd y riant/rhieni yn bodloni'r ALI, yna rhaid i'r Awdurdod gyflwyno Gorchymyn Presenoldeb yn yr Ysgol ar y riant/rhieni. Gellir erlyn riant sy'n methu â chydymffurfio â gorchymyn.

Os oes gan yr Awdurdod Lleol bryderon am eich darpariaeth addysgol, sut y bydd yr Awdurdod yn asesu bod yr addysg a ddarperir yn foddhaol?

1) Gwybodaeth Ysgrifenedig

Bydd holiadur yn cael ei ddarparu er mwyn i chi amlinellu manylion y ddarpariaeth bresennol ar gyfer eich plentyn/plant. Efallai y byddwch yn dymuno gwneud hyn mewn rhyw ffordd heblaw'r ffurflen hon. Gall y dystiolaeth fod ar ffurf enghreifftiau penodol o ddysgu e.e. lluniau, dyddiaduron o weithgarwch addysgol, prosiectau, asesiadau, samplau o waith ac ati

2) Ymweld

Bydd yr Awdurdod yn gofyn i un neu ddau o'i Swyddogion gyfarfod â chi er mwyn asesu bod y trefniadau rydych yn eu gwneud ar gyfer eich plentyn/plant yn foddhaol. Dylid ystyried yr ymweliad mewn goleuni cadarnhaol a dylai roi cyfle am drafodaeth agored rhyngoch chi a'r Swyddog(ion) ar yr addysg sy'n cael ei darparu.

Gallai fod yn ddefnyddiol i chi fod yn ymwybodol o rai o'r meysydd y bydd y Swyddog(ion) yn edrych arnynt pan fyddant yn cwrdd â chi:

- cyfranogiad cyson y riant/rhieni neu ofalwr/ofalwyr arwyddocaol eraill - disgwylir y byddai gan riant/rhieni neu ofalwr/ofalwyr arwyddocaol ran arwyddocaol; er nad oes rheidrwydd arnynt i gymryd rhan gyson neu ymarferol wrth ddarparu addysg;
- arwydd bod riant/rhieni wedi meddwl am eu rhesymau dros Addysgu yn y cartref a'r hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni;
- arwyddion o ymroddiad a brwdfrydedd, a chydnybuddiaeth o anghenion, agweddau a dyheadau'r plentyn/plant;
- cyfleoedd i'r plentyn/plant gael eu hysgogi gan eu profiadau dysgu;
- cymryd rhan mewn gweithgareddau i ddarparu ar gyfer lles y plentyn/plant a lefel ei datblygiad/ddatblygiad;
- mynediad at adnoddau/deunyddiau sydd eu hangen i gwrdd ag amcanion y riant/rhieni;
- cyfle i ryngweithio gyda phlant eraill ac oedolion eraill;
- cyfranogiad Gyrfa Cymru ar adeg briodol; a
- datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd sy'n addas i oedran, dawn a gallu'r plentyn/plant ac wedi ystyried unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddynt.

Os hoffech chi gael trafodaeth bellach ar addysgu eich plentyn/plant yn y cartref, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â'r Gwasanaethau Cynhwysiad ar **01824 708064**.